# Y GORAU O'N GWASTRAFF

**5 Tachwedd 2020**

Awduron:
***Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig, Senedd Ieuenctid Cymru Aelodau'r Pwyllgor***

SENEDD IEUENCTID CYMRU
WELSH YOUTH PARLIAMENT

# AELODAU'R PWYLLGOR

KIAN AGAR
EVAN BURGESS
ABBEY CARTER
FFION-HÂF DAVIES
GRETA EVANS
MAISY EVANS
ANGEL EZEADUM
EFAN FAIRCLOUGH
ELERI GRIFFITHS
WILLIAM HACKETT

ALED JOSEPH
TODD MURRAY
CHARLEY OLIVER-HOLLAND
UBAYEDHUR RAHMAN
CALEB REES
ANWEN RODAWAY
RHIAN SHILLABEER
CARYS THOMAS
BRENGAIN GLYN WILLIAMS
LAINE WOOLCOCK

# CEFNDIR

## MAE'N AMSER PWYSIG I NI, FEL SENEDD IEUENCTID CYMRU, WRTH I NI WELD PENLLANW EIN GWAITH YN CYNRYCHIOLI POBL IFANC O BOB CWR O'R WLAD A LANSIO EIN HADRODDIAD PWYLLGOR AR LEIHAU SBWRIEL A GWASTRAFF PLASTIG.

Dyma yw ein trydydd adroddiad, a'n hadroddiad olaf ni fel Aelodau cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru, yn dilyn adroddiadau Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl, a Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm.

Cynhaliwyd etholiad cyntaf ym mis Tachwedd 2018. Roedd yr etholiad hwn yn gyfle i bobl ifanc 11-18 oed ethol pobl ifanc a fyddai'n llais iddynt dros Gymru gyfan. Etholwyd 60 o Aelodau, 40 ohonynt yn cynrychioli etholaethau, ac 20 ohonynt wedi'u hethol gan 13 o sefydliadau partner sy'n gweithio gydag ystod eang o bobl ifanc yng Nghymru.

**"Llais democrataidd i bobl ifanc Cymru ar lefel genedlaethol ac yn eu grymuso i sicrhau newid" (Elin Jones AS, Y Llywydd).**

Fe wnaeth bron i 2000 o bobl ifanc ar draws Cymru gymryd rhan mewn arolwg i ddweud wrthym beth roeddent am i ni ei flaenoriaethu. Yn ein cyfarfod llawn cyntaf ym mis Chwefror 2019, wedi areithiau angerddol gan bob un yn y Siambr ar ystod o bynciau, dewiswyd Sbwriel a Gwastraff Plastig, Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm a Chymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl fel y prif faterion y byddem yn canolbwyntio arnynt.

Mae pwysigrwydd mynd i'r afael â sbwriel a gwastraff plastig i bobl ifanc yng Nghymru yn cael ei adlewyrchu yng ngeiriau Efan Fairclough, Aelod o Bwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig Senedd Ieuenctid Cymru:

**"Mae'n bosibl y byddwn ni mewn sefyllfa lle bydd mwy o blastig yn y môr na physgod erbyn 2050. Nid yw hynny yn sefyllfa y gallwn ni adael i ddigwydd. Mae gennym ni'r gallu a'r potensial fel gwlad i wneud gwahaniaeth i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol."**



# Y BROBLEM GYDA SBWRIEL A GWASTRAFF PLASTIG

**“Rhaid I ni gymryd camau blaenllaw i achub yr amgylchedd sydd angen sylw ar frys.” (Rhian Shillabeer, Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, De Caerdydd a Phenarth)**

Gwyddwn o’n profiadau personol ac o siarad â phobl ifanc eraill yn ein hardal lleol pa mor angerddol y maent yn teimlo dros yr amgylchedd a’r niwed sy’n cael ei achosi gan sbwriel a gwastraff plastig.

**“Ar ddechrau ysgol uwchradd, mi ges i syniad o anferthedd y broblem gwastraff plastig; yn yr ysgol, adref, bobman ac mi allwn weld yr effeithiau dinistriol o effeithiau plastig ar yr amgylchedd.” (Ubayedhur Rahman, ASIC)**

Mae miliynau o dunelli o lygredd plastig nad yw’n bioddiraddio yn ein cefnforoedd yn peryglu bywyd gwyllt y cefnforoedd ac yn peri micro a nanoblastigau i dreiddio i mewn i’r gadwyn fwyd (Adroddiad Senedd Cymru, 2019). Mae’r cysylltiad rhwng llygredd plastig a’r pwnc ehangach o newid hinsawdd yn cael ei amlygu yn adroddiad diweddar y Ganolfan dros Gyfraith Amgycheddol Rhyngwladol “Ar lefelau presennol, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o gylch bywyd plastig yn bygwth gallu’r gymuned fyd-eang i gadw’r cynnydd mewn tymheredd o dan 1.5 C.” (Mai 2019).

Yng Nghymru, gallwn ymfalchïo ein bod yn wlad sydd yn cael ei gweld fel un sy’n arloesi yn y frwydr yn erbyn gwastraff plastig. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i godi tâl am fagiau siopa untro ac mae cyfraddau ailgylchu ar gyfer poteli plastig wedi cyrraedd 75% (WRAP Cymru). Cyfradd Cymru o ran ailgylchu gwastraff i’r cartref yw’r uchaf yn y DU a’r drydedd uchaf yn y byd eisoes, gyda dim ond Singapore a’r Almaen yn uwch. Er y gwaith cadarnhaol, mae ymchwil ddiweddar gan WRAP Cymru yn amcangyfrif bod 400,000 o dunelli o wastraff plastig yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru pob blwyddyn, a bod eitemau y gellid eu hailgylchu yn gyson yn cael eu rhoi yn y bin sbwriel yn hytrach na’r bin ailgylchu.

Ym mis Mehefin 2019 galwodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Senedd Cymru am newidiadau i leihau llygredd, a’r defnydd o blastig. Yna ym mis Ionawr 2020, gwnaeth Llywodraeth Cymru awgrymiadau sy’n anelu at ‘ddyfodol diwastraff erbyn 2050’. Awgrymir dulliau eraill o leihau sbwriel a Gwastraff Plastig yn narpariaethau Cymru ym Mil Amgylchedd y DU, yn cynnwys Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (sy’n galw’r cynyrchwyr i gyfrif am eu gwaith o gynhyrchu plastig) a Chynllun Dychwelyd Ernes (lle mae cartrefi yn cael gwobr ariannol fach am ddychwelyd eitem plastg untro i bwynt casglu).

Mae pandemig Covid 19 wedi dod â heriau newydd. Mae adroddiad gan Cadwch Gymru’n Daclus yn dangos llai o gasgliadau biniau a gweithgareddau codi sbwriel yn ystod y cyfnod clo. Wrth i’r cyfnod clo lacio dros yr haf, gwelwyd cynnydd mewn sbwriel gan gynnwys Cyfarpar Diogelu Personol (sydd, am resymau dilys, yn cynnwys plastig untro).

# EIN HYMCHWIL

## FEL PWYLLGOR, RYDYM YN AWYDDUS IAWN BOD EIN GWAITH YN ARWAIN AT WEITHREDU YMARFEROL I YMATEB I'R BROBLEM O SBWRIEL A GWASTRAFF PLASTIG.

Er mwyn gwneud y cam cyntaf, roedd angen i ni gael darlun clir o arferion ac agweddau pobl ifanc tuag at yr angen i ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau ein defnydd gwastraff a phlastig, ac a oes gan bobl ifanc y cyfleusterau y mae eu hangen arnynt i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu yn y mannau y maent yn dysgu ac yn cymdeithasu.

Fe wnaethom ni siarad ag arbenigwyr ac ymgyrchwyr cyn cynllunio ein hymgynhghoriad. Yn sgil dyfodiad pandemig Covid-19, bu'n rhaid i ni, fel llawer, newid ein cynlluniau gwreiddiol, a gweithio ac ymgysylltu'n rhithiol. Roeddem hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig ein bod yn defnyddio ein rôl fel ASIC i roi cefnogaeth a negeseuon cadarnaol i bobl ifanc dros Gymru, tra'n parhau â'n gwaith ymgynghori a rhannu arfer da. O ganlyniad rydym wedi:

- **Cyhoeddi blogiau a vlogiau sy'n annog pobl ifanc i werthfawrogi eu hamgylchedd a syniadau ymarferol ynglŷn ag ailgylchu, ailddefnyddio, a lleihau.**
- **Annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn ein arolwg ar-lein. Casglwyd 560 o ymatebion yn ystod y cyfnod rhwng 9 Ebrill ac 14 Awst 2020**
- **Cynnig cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithdai a sesiynau trafod rhithiol.**
- **Trafod sbwriel a gwastraff plastig gyda Hannah Blythyn AS, y Dirpwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol.**
- **Trafod ein profiadau o fod yn bobl ifanc yn byw mewn cyfnod pandemig gyda Phrif Weinidog Cymru.**
- **Cael mewnbwn ar ein gwaith ymchwil gan athrawon a sefydliadau sydd yn arbenigo ym maes addysg a materion amgylcheddol.**

Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, sydd wedi'i lywio a'i ysgrifennu gan bobl ifanc, yn helpu i greu newid yng Nghymru a fydd yn peri i wastraff a phlastig fod yn rhywbeth o'r gorffennol, ac yn arwain at welliannau er mwyn gwarchod yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn ein hymgynghoriad.



# YR ANGEN I WEITHREDU

**AR DDECHRAU EIN HAROLWG, ROEDDEM YN AWYDDUS I GANFOD BETH OEDD AGWEDD POBL IFANC AT AILGYLCHU, AILDDEFNYDDIO A LLEIHAU GWASTRAFF PLASTIG YN GYFFREDINOL AC MEWN GWAHANOL AGWEDDAU AR EU BYWYDAU BOB DYDD; YN Y CARTREF, YN YR YSGOL NEU'R COLEG, NEU ALLAN GYDA FFRINDIAU.**

# BETH YW TEIMLADAU POBL IFANC O RAN SBWRIEL A GWASTRAFF PLASTIG?

Dengys canlyniadau ein holiadur fod 87% yn meddwl bod ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff yn bwysig iddynt. Mae canran uchel yn cytuno ei bod yn bwysig lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu sbwriel a gwastraff plastig yn y cartref (87%), tra allan gyda theulu neu ffrindiau (84%), ac yn yr ysgol (84%). Mae 85% yn hyderus eu bod yn gwybod beth maent yn gallu ei ailgylchu. 67% o bobl ifanc sy'n gwybod am ffyrdd eraill o leihau sbwriel a gwastraff plastig heblaw am ailgylchu.

Byddai 38% yn dewis eitemau gyda llai o becynnu, a 12% fyddai'n dewis gwneud cwyn neu siopa yn rhywle arall os nad yw cwmni/sefydliad yn delio â'i wastraff mewn ffordd gyfrifol. Rydym yn gweld o ymatebion ysgrifenedig i'n hymgynghoriad fod pobl ifanc am weld siopau a chynhyrchwyr yn gwneud mwy i ymateb i'r sefyllfa. Cyfeirir at yr angen i leihau pecynnu, mwy o siopau i gynnig gorsafoedd ail-lenwi a defnyddio pecynnu bioddiraddadwy.

Yn ein harolwg, gwelwn fod tua dau draean eisiau gweld rhyw fath o waharddd ar blastig untro, (67.5% o ymatebion o blaid gwaharddiad o un neu fwy o fannau cyhoeddus, 6% yn anghytuno, a 29% yn ansicr), ac roedd dros hanner yn teimlo y dylai eitemau sy'n cynnwys plastig untro fod yn fwy drud (51%).

# PWY SY'N DYLANWADU AR BOBL IFANC?

Fe wnaeth 93% o bobl ifanc ddewis rhieni, gofalwyr neu aelodau o'r teulu, fel un o'r tri phrif ddylanwad ar eu hymwybyddiaeth o'r angen i ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau. Yn ail roedd athrawon (55%), a dylanwadwyr fel David Attenborough a Greta Thunberg yn drydydd (42%).

Wrth i ni drafod sut y byddai pobl ifanc yn gyffredinol yn dymuno cael gwybodaeth a dysgu ynglŷn â sut i leihau sbwriel a gwastraff plastig, gwersi yn yr ysgol gan ein hathrawon ddaeth ar frig y rhestr. Dewisodd 71% yr opsiwn yma yn un o'u tri uchaf. Yn ail roedd cyflwyniadau gan arbenigwr yn y maes sy'n ymweld â dy ysgol/coleg gyda 48%. Yn gydradd drydydd roedd hysbysebu ar y teledu a hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol gyda 46%.

Yn cyd-fynd â'r gefnogaeth i wersi yn yr ysgol gan ein hathrawon, mae 86% o'r bobol ifanc a holwyd yn cytuno y dylid dysgu am ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau fel rhan o'u haddysg.

# CASGLIADAU

***RYDYM YN CROESAWU'R FFAITH BOD Y BOBL IFANC A HOLWYD YN GWELD PWYSIGRWYDD AILGYLCHU, AILDDEFNYDDIO A LLEIHAU GWASTRAFF, YN ENWEDIG GAN YSTYRIED BOD YR YMGYNGHORIAD HWN WEDI DIGWYDD YN YSTOD PANDEMIG Y CORONAFEIRWS.***

Roedd yn galonogol hefyd fod cynifer yn teimlo'n hyderus ynglŷn â sut i ailgylchu, ond mae ein canfyddiadau'n dangos bod llai o bobl ifanc yn gwybod am ffyrdd eraill o leihau sbwriel a gwastraff plastig heblaw am ailgylchu. Rydym yn teimlo bod angen gwneud mwy i addysgu pobl ifanc i godi ymwybyddiaeth am y camau eraill y mae modd eu cymryd i leihau sbwriel a gwastraff plastig.

**"Rydw i wir o'r farn fod addysg yn hynod o bwysig a dyma'r unig ffordd y gallwn ysbrydoli y genhedlaeth ifanc i fod yn fwy eco-gyfeillgar." Anwen Rodaway, (ASIC)**

Rydym yn cytuno gyda'r 86% sy'n teimlo, yn yr un modd ag ydym ni, y dylid dysgu am ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau fel rhan o'n haddysg. Rydym eisiau gweld mwy o bwyslais ar addysgu pobl ifanc yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r nod o "helpu dysgwyr i ddatblygu'n ddinasyddion moesegol a gwybodus sy'n dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned ac yn cydnabod eu bod yn dibynnu arno" (Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Medi 2020) yn berthnasol iawn i'n gobeithion i leihau sbwriel a gwastraff plastig. Fel Senedd Ieuenctid, rydym am sicrhau bod digon o addysg ynghylch effaith negyddol sbwriel a gwastraff plastig a'r camau y gall pobl ifanc eu cymryd er mwyn datrys y broblem.

Rydym yn falch o weld bod rhieni, gofalwyr ac aelodau'r teulu yn cael dylanwad mor gryf ar ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r angen i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu. Rydym yn teimlo ei bod yn bwysig adeiladu ar hyn drwy sicrhau bod rhieni yn cael y wybodaeth gywir am ailgylchu i wneud penderfyniadau a fydd yn lleihau gwastraff.

Fe wnaethom ni groesawu'r cyfle i gymryd rhan yn ymgynghoriad Llywdoraeth Cymru ynghylch 'Lleihau plastig untro yng Nghymru' sy'n ystyried gwahardd rhai eitemau plastig untro. Dengys ein ymgynghoriad fod pobl ifanc yn barod am newid, gyda'r mwyafrif yn awyddus i weld y Llywodraeth yn cymryd camau i leihau plastig untro drwy wahardd a/neu godi pris eitemau perthnasol.

**"gorfodi siopau i leihau plastig ar bopeth a gwahardd plastig ar y traeth a'r parc ac ychwanegu biniau ailgylchu wrth ymyl pob bin sbwriel cyhoeddus." (merch 10 oed, Caerdydd)**

Mae'r ffaith bod cyn lleied o bobl ifanc wedi dweud y byddent yn cwyno, neu'n newid lle maen nhw'n siopa (12%) pe na bai cwmni/sefydliad yn trin ei wastraff mewn modd cyfrifol yn peri pryder. Ar sail ein profiadau personol a'r trafodaethau y cawsom ni fel Aelodau gyda phobl ifanc yn ein cymunedau, rydym yn teimlo mai un o'r prif resymau am y ganran isel yw bod pobl ifanc wedi siomi ar yr ymateb i ymgyrchoedd amlwg fel y streic hinsawdd byd-eang sydd wedi tynnu sylw yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ffactor arall yw rhwystredigaeth o deimlo nad yw pobl ifanc yn gallu creu newid lle rydym yn dysgu ac yn lleol.

**“Y realiti trist yw pobl ifanc yn teimlo’n ddi-bwer” (Evan Burgess, ASIC Aberconwy)**

Mae’n glir bod angen gwneud llawer mwy i addysgu pobl ifanc am y dewisiadau y maent yn gallu gwneud, codi eu hyder i godi llais, mynegi barn, cwyno lle bod angen, a dangos bod gwir werth mewn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn lleol ac yn genedlaethol. Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf i wneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yn rhan o’i chyfraith. Mae erthygl 12 o’r Confensiwn yn nodi hawl plant i leisio barn ar bob mater sy’n effeithio arnynt ac i’r farn honno gael ei chymryd o ddifrif. Yn fwy diweddar mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015) yn cyfeirio at saith nod llesiant, gan gynnwys Cymru’n cyfrannu at lesiant byd-eang. Mae’r Ddeddf hefyd yn nodi pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant fel o’i pum dull o weithio. Rydym yn galw am adolygiad i archwilio’r rôl y mae pobl ifanc yn ei chwarae mewn trafodaethau a gwneud penderfyniadau ar lefel leol, yn enwedig drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae pobl ifanc yn disgwyl bod cysylltiad da rhwng y gwahanol grwpiau a fforymau sy’n bodoli i drafod a gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar eu hardaloedd lleol. Rydym eisiau i’r adolygiad hwn edrych ar sut i wella cyfraniad pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau. Rydym yn gobeithio y bydd hefyd yn golygu y bydd pobl ifanc yn gweld bod cymryd rhan mewn trafodaethau sy’n effeithio arnyn nhw a’u hardal leol yn werth chweil, ac yn sicrhau bod blaenoriaethau pobli ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio arnynt a’u cymunedau.





# DARPARIAETH

**YN YR ADRAN HON, RYDYM YN EDRYCH AR Y CYFLEUSTERAU SYDD AR GAEL I GEFNOGI ARFERION AILGYLCHU AC AILDDEFNYDDIO POBL IFANC YN EU CYMUNEDAU. DANGOSODD EIN HYMCHWIL FOD 70% YN AILDDEFNYDDIO EITEMAU FEL CYNWYSYDDION GYDA CHAEADAU, POTELI PLASTIG, A BAGIAU, GYDA 61% YN DEFNYDDIO FFYNHONNAU DŴR, A 52% YN DEFNYDDIO POTELI DWR AMLDRO.**

# YN YR YSTAFELL DDOSBARTH

Mae canfyddiadau ein harolwg yn dangos bod amrywiaeth o ran y math o ddeunyddiau y gall pobl ifanc eu hailgylchu ar hyn o bryd yn y mannau y maent yn cael eu haddysg. Er bod 92% o bobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod yn gallu ailgylchu papur, dywedodd tua dau draean eu bod yn gallu ailgylchu caniau diod a chartonau, ac ychydig dros hanner sy'n gallu ailgylchu gwastraff bwyd yn eu man dysgu.

Dywedodd pobl ifanc eu bod eisiau gallu ailgylchu amrywiaeth llawer mwy eang o eitemau mewn mannau fel ysgolion a cholegau, fel pinau ffelt, dillad, caniau diod a gwastraff bwyd.

Mae gan 55% o'r bobl ifanc a holwyd ecogyngor neu ecobwyllgor yn eu man addysg. Mae 65% o'r rhai a holwyd yn credu bod ecogyngor/bwyllgor yn ddull effeithiol o godi ymwybyddiaeth am leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu sbwriel a gwastraff plastig. Mae dros hanner (56%) yn cytuno y dylai ecogynghorau fod yn orfodol yn ein hysgolion. Mae'r farn yma'n cael ei chefnogi gan yr athrawon y bûm yn eu holi.

Mae enghreifftiau o ecobwyllgorau/ecogynghorau gweithgar sydd wedi trefnu biniau ailgylchu i'r ysgol, casgliadau bagiau creision yn yr ysgol ac yn y gymuned a chasgliad banc dillad sy'n codi arian i'r ysgol wrth ailgylchu dillad/tecstiliau.

**"Yn ein hysgol ni, rydym wedi cyflwyno poteli plastig ailddefnydd gyda logo'r ysgol arnynt er mwyn lleihau plastig untro." Brengain Glyn (ASIC, Arfon).**

Wrth drafod y dyfodol, mae sawl athro rydym wedi trafod â nhw am weld mwy o gefnogaeth i ecobwyllgorau/ecogynghorau. Mae angen mwy o amser i gyfarfod a'r gallu i gael adnoddau er mwyn gwneud gwahaniaeth;

**"Mae angen i'r awdurdod lleol roi cyfleusterau ailgylchu gwell i'r ysgol a chyswllt â'r pwyllgor i weld beth mae ei angen ar yr ysgol." (Athro ysgol uwchradd a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad)**

# YN Y GYMUNED

Fe wnaethom ni ofyn i bobl ifanc beth maent yn ei ailgylchu gartref, neu yn eu hardal leol. Mae tua 90% o bobl ifanc yn ailgylchu poteli plastig ac mae bron 80% yn ailgylchu caniau diod, ond llai na hanner y bobl ifanc holwyd sy'n ailgylchu eitemau eraill fel hambyrddau pacio, potiau plastig, papur, cardfwrdd, gwastraff bwyd, gwydr a dillad. Dim ond 20% o bobl ifanc sy'n ailgylchu eu dillad.

Dywedodd pobl ifanc wrthym hefyd bod angen mwy o gyfleusterau ar gyfer ailgylchu neu leihau sbwriel a gwastraff plastig yn eu cymunedau. Dim ond 41% o'r rhai a holwyd sy'n teimlo bod digon o finiau sbwriel, tra bod dros 68% yn nodi nad oes digon o finiau ailgylchu. Dywedodd 67% o bobl ifanc wrthym nad oes digon o ffynhonnau ail-lenwi dwr.

# CASGLIADAU

## *MAE'R YSTAFELL DDOSBARTH YN LLE PWYSIG I ADDYSGU POBL IFANC, AC WRTH OSOD ESIAMPL GADARNHAOL I ANNOG ARFERION DA O OEDRAN IFANC.*

Er ein bod yn falch bod cyfleoedd i ailgylchu rhai eitemau, mae'n siomedig nad yw cynifer o bobl ifanc yn gallu ailgylchu gwastraff bwyd, pecynnau bwyd a diod a deunyddiau eraillyn eu man addysg.

**"Byddai'n dda gallu ailgylchu mwy o becynnau a gwastraff o'r ffreutur ond mae'n anodd gan mai cwmni allanol sydd yn gyfrifol am y ffreutur. Mae biniau yn aml yn gorlifo a byddai'n dda rhoi cynnig ar finiau ailgylchu tu allan." (Athro ysgol uwchradd a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad)**

Mae'n amlwg nad oes gan ein mannau dysgu y cyfleusterau y mae eu hangen arnynt i waredu amrywiaeth o ddeunyddiau'n gynaliadwy. Nid ysgolion neu golegau unigol sy'n gyfrifol am reoli rhai o'r materion hyn, ond yn hytrach awdurdodau lleol. Rydym yn ymwybodol o enghreifftiau da fel Cyngor Sir Fynwy, sydd wedi dewis newid o boteli llaeth plastig untro i boteli llaeth gwydr y gellir eu hailddefnyddio, ond mae'r sefyllfa'n anghyson ledled Cymru. Fel Pwyllgor, rydym yn galw ar awdurdodau lleol i edrych ar sut mae modd cefnogi mannau dysgu i weithredu mewn modd mwy cynaliadwy, ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o sicrhau bod mwy o gysondeb ar draws Cymru.

Mae adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn awgrymu y dylai'r holl gyrff a byrddau cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) 'adolygu eu dull a'u gweithgareddau caffael i nodi cyfleoedd i wneud y mwyaf o effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol penderfyniadau gwariant.' Rydym yn croesawu gwaith y Comisiynydd yn y maes hwn, ac yn cytuno gyda'r angen i sicrhau bod y fframweithiau caffael yn ategu ymdrechion i leihau gwastraff plastig.

Cytunwn gyda phobl ifanc ac athrawon, a ddywedodd wrthym fod ecogyngor/ecobwyllgor yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth am leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu sbwriel a gwastraff plastig, ac mae awydd i'w gweld yn gweithio mewn mwy o ysgolion ar draws Cymru.

Yn ystod yr ymgynghoriad, rydym wedi dysgu mwy am yr angen i ystyried cynaliadwyedd yn ein defnydd o nifer o eitemau. Rydym wedi dod yn llawer mwy ymwybodol o effaith dillad ar lygredd plastic wrth i ficroblastigau o ffibrau synthetig, sydd yn aml mewn ffasiwn cyflym, gael eu golchi i'n moroedd. Mae hwn yn un o'r meysydd lle rydym yn teimlo mae angen codi ymwybyddiaeth ymhellach.

**"Rydym yn siarad am ailgylchu poteli plastig yn fwy na mathau eraill o blasting ac mae hynny yn cael dylanwad. Yn achos ailgylchu dillad, lle nad yw'r gyfradd mor uchel â photeli plastig, nid ydym yn sôn gymaint am yr angen i ailgylchu dillad." Ffion-Haf Davies (ASIC Gŵyr)**

Yn sicr mae'n dda gweld faint o bobl ifanc sy'n ailgylchu eitemau fel poteli plastig, ond rydym yn credu bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r amrywiaeth o bethau eraill y gallant eu hailgylchu.

**"Pan feddyliwch am bethau fel papur, cardfwrdd, tiniau a gwydr, maent oll yn hawdd i'w hailgylchu... mae'r ffaith nad yw'r rhain yn gyffredinol yn cael eu hailgylchu yn broblem eithaf sylweddol." (Aled Joseff, ASIC Caerffili)**

O'n gwaith ymgynghori, rydym wedi gweld bod angen cymryd camau i fynd i'r afael â sbwriel a gwastraff plastig yn y tymor byr a symud ymlaen gyda strategaethau i fynd at wraidd y broblem yn y tymor hir. Rydym ni fel Pwyllgor yn galw am well darpariaeth o finiau, biniau ailgylchu a ffynhonnau ail-lenwi dwr mewn mannau cyhoeddus ar draws Cymru. Rydym hefyd yn awyddus i weld Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith i wahardd cynhyrchion plastig untro, ac yn datblygu cynllun effeithiol ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, a Chynllun Dychwelyd Ernes.






# ARGYMHELLION

**01.** Galwn am fwy o bwyslais ar addysgu pobol ifanc ar draws Gymru am effeithiau negyddol sbwriel a gwastraff plastig, a sut gall bobl ifanc helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**02.** Sicrhau bod gwybodaeth addas ar gael ac yn cael ei hyrwyddo'n dda i rieni a theuluoedd. Mae angen i ymgyrchoedd hirdymor godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd, gan gynnwys gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddeunyddiau y mae modd eu hailgylchu .

**03.** Rhoi'r cyfleusterau sydd eu hangen ar bob sefydliad addysg fel bod modd ailgylchu ystod ehangach o ddeunyddiau, a lleihau'n sylweddol faint o blastig untro sy'n cael ei ddefnyddio. Gobeithiwn y byddai hyn hefyd yn golygu bod pobl ifanc yn creu arferion da yn gynnar.

**04.** Rydym am weld ecogynghorau ac ecobwyllgorau ar waith mewn mwy o ysgolion ledled Cymru, er mwyn helpu i sbarduno newid, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

**05.** Dylai awdurdodau lleol edrych ar ffyrdd o gefnogi a chymell mannau fel ysgolion a cholegau ledled Cymru i weithredu'n fwy cynaliadwy, gan adeiladu ar enghreifftiau o arfer da.

**06.** Dylai awdurdodau lleol adolygu eu prosesau caffael er mwyn sicrhau bod y meini prawf sydd ar waith i ddewis cyflenwyr yn adlewyrchu amcanion amgylcheddol a llesiant eraill, er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sefydliadau addysg gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau cynaliadwyedd.

**07.** Galwn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod mecanweithiau cyfranogiad pobl ifanc yn gweithio'n effeithiol i rhoi llais i bobl ifanc ar y materion sy'n eu heffeithio arnynt, gan gynnwys sbwriel a gwastraff plastig.

**08.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut mae'r mecanweithiau cyfranogiad presennol ar gyfer pobl ifanc yn cysylltu â fforymau lleol eraill ar gyfer gwneud penderfyniadau, fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n anghenreidiol bod pobl ifanc yn chwarae rôl mewn penderfyniadau lleol, felly dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol i gyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol wrando ar blant a phobl ifanc.

**09.** Dylid cynyddu nifer y biniau, biniau ailgylchu a gorsafoedd ail-lenwi mewn mannau cyhoeddus ledled y wlad.

**10.** Rydym am weld Llywodraeth Cymru yn cymryd camau sylweddol ar frys i roi diwedd ar gynhyrchu plastigau untro (gyda rhai eithriadau hanfodol), ac ystyried dulliau gweithredu fel gwahardd cynhyrchu plastigau untro, Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, a/neu Gynllun Dychwelyd Ernes. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno newid polisi neu ddeddfwriaeth ar y mater hwn ar frys, a hynny'n gynnar yn y Senedd nesaf os nad oes modd gwneud newid o'r fath cyn etholiad nesaf y Senedd ym mis Mai 2021.



# CYDNABYDDIAETH

Diolch yn fawr i bawb a roddodd o'u hamser i ymgysylltu â ni yn ystod yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys:

## SEFYDLIADAU

WRAP Cymru

Cadwch Gymru'n Daclus

Seaquest Wales

Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth (SAS)

Cyfeillion y Ddaear

Cymdeithas Cadwraeth y Môr

Canolfan Cynaladwyedd Prifysgol Bangor

AHNE Ynys Môn

Lleisiau Bach

Prosiect Ynys Blastig Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyfeillion y Ddaear

Canolfan yr Amgylchedd, Abertawe

WWF

Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Senedd Cymru

## UNIGOLION

Yr Athro Wouter Poortinga, Prifysgol Caerdydd

Alwen Marshall, Siop Iechyd Da

Luisa Pastore, WRAP Cymru

Lorna Collisson, Cydlynydd Datblygiad Cymunedol, Cyngor Caerdydd

Ella Daish, ymgyrchydd End Period Plastic o Gaerdydd

Steffan Griffiths, cyflwynydd y tywydd, S4C

Dr Einir Young, Prifysgol Bangor

Dr Nia Young, Prifysgol Bangor

Dr Huw Lloyd, Prifysgol Metropolitan Manceinion

Yr Athro Jerry Hunter, Prifysgol Bangor

Sadie May Pearce, Sadie Jewellery

Eleanor Beer, Hwylusydd Graffeg

## YSGOLION

Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan

Digartref Cyf

Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Wrecsam

Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr

Ysgol David Hughes

Ysgol Bro Teifi

Ysgol Bro Dinefwr

Ysgol Bro Myrddin

Ysgol Gyfun Bryn Tawe

Ysgol Gyfun Gŵyr

Ysgol Glan Clwyd

Ysgol Maesydderwen

Ysgol Pendalar

Ysgol Tryfan

Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant

